CYFARFOD BLYNYDDOL - CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED
A gynhaliwyd ar Nos Lun 16.05.2022 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cyng. Bryan Davies (Cadeirydd), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Elsbeth Page, Cyng. Cai Phillips
Clerc: Enid Davies
Cyfieithydd: Hefin Jones

APOLOGIES: Cllr. Eifion Jones, Cllr.Wyn Evans

1	**Penodi cynghorwyr trwy gyfethol o'r atsyniadau a dderbyniwyd i Rybudd y Cyngor** Penderfynwyd cyfethol dau Gynghorydd profiadol oedd wedi dangos diddordeb mewn parhau i wasanaethu yng Ngyngor Cymuned Cynwyl Elfed, Julian Evans a Delme Phillips. Penderfynwyd i ohirio unrhyw gyfetholiadau pellach tan ddyddiad diweddarach. Clerc i ymateb i bartïon eraill â diddordeb i roi gwybod iddynt am benderfyniad y Cyngor.
2	**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 17.05.2021** Cymeradwywyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol17.05.2021 gan Cyng. Elfed Davies ac eiliwyd gan Cyng. Elsbeth Page
3	**Materion yn codi o'r cofnodion.** Nil
4	**Enwebu Cadeirydd 2021-2022** Penderfynwyd yn unfrydol i ethol y Cyng.Julian Evans yn Gadeirydd am gyfnod o flwyddyn. Gwahoddwyd y Cyng. Julian Evans i'r cyfarfod i gymryd yr awenau fel Cadeirydd.
5	**Enwebu Is-Cadeirydd 2021-2022** Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngor i ethol y Cyng. Elsbeth Page yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn.
6..	**Enwebu Aelodau i Bwyllgorau Arbennig**: Penderfynodd y Cyngor fod y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar bwyllgorau arbennig fel y canlynol: **Pwyllgor Henoed -** Cyng.Julian Evans **Corff Llywodraethol Ysgol Cynwyl Elfed a Llanpumsaint -** Cyng..Bryan Davies **Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal -** Cyng. Julian Evans.(Cadair.) and Cyng. Bryan Davies **Pwyllgor Sirol Un Llais Cymru -** Cyng. Bryan Davies **Pwyllgor Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed -** Cyng. Julian Evans

7 a.	**<u>Trafod a chymeradwyo Cyfrifon Blynyddol am y flwyddyn 2021/2022</u>** Cymeradwywyd Cyfrifon am y flwyddyn 2021/2022 ac arwyddwyd y Ffurflen Blynyddol am y flwyddyn ariannol 2021/2022 gan y Cyng. Julian Evans(Cadeirydd)
b.	**<u>Penodi Archwylidd Mewnol</u>** Penderfynodd y Cyngor penodi Mr Lyn Evans i wneud archwiliad mewnol eleni.
c.	Penderfynwyd gan y Cyngor Mabwysiadu y ddogfen Rheoliadau Ariannol.
d.	Penderfynwyd gan y Cyngor Mabwysiadu y ddogfen Rheoliadau Sefydlog y Cyngor.
e.	Roedd y Clerc wedi cynnal asesiad risg ariannol a rheolaethol ar gyfer y flwyddyn 2022/2023 a derbyniwyd hyn gan y Cyngor.
8	**<u>Cyflog y Clerc:</u>** Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngor i godi cyflog y Clerc £500 am y flwyddyn 2022/2023 Mae'r Clerc hefyd i hawlio treuliau yn flynyddol.
9	**<u>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol</u>** Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngor barhau i gynnal cyfarfodydd am 7.30 ar y trydydd dydd Llun o bob mis. Nid yw'r Cyngor yn cwrdd ym Mis Awst.
10	**<u>Unrhyw Fusnes Arall.</u>** Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 o'r gloch.

<u>Signed……..</u>

<u>Date…….</u>